

Pwyllgor Adnoddau Dynol

15 Mai 2024

Yn Bresennol (yn bersonol)

Mrs J James (Cadeirydd)

Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd SL Hancock MBE, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Mr GA Jones a'r Cynghorydd R Jordan.

Swyddogion yn bresennol

Y Prif Weithredwr, Y Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00 pm – 3.05 pm)

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. **Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

3. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024 ac ar 10 Ebrill 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan Mr Jones, **penderynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024 ac ar 10 Ebrill 2024.

4. **Y Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nodwyd y camau gweithredu oedd wedi'u cwblhau. Gofynnwyd am i dymor yr Hydref 2024 gael ei nodi fel yr amserlen ar gyfer y Gweithdy.

5. **Y Fforwm Gweithwyr**

Cyflwynwyd cofnodion y Fforwm Gweithwyr a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2024 er gwybodaeth. Awgrymodd y Cadeirydd rai newidiadau i'r modd y nodir y rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod, a gofynnodd hefyd am i'r camau gweithredu a nodwyd gael eu cynnwys yn y Log Gweithredu. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod y camau gweithredu wedi'u cynnwys yn y Log Gweithredu ar gyfer y Fforwm Gweithwyr.

Nodwyd.

6. **Diweddariad ar Reoli Adnoddau Dynol**

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn y tîm AD, gan gynnwys yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd,



adolygiad o'r polisïau, absenoldeb salwch, data hyfforddiant a darpariaeth hyfforddiant. Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod cytuno i geisiadau o dan y polisi gweithio oriau hyblyg yn amodol ar y gofynion gweithredol ac y byddai'r cytundeb am gyfnod prawf o 6 mis yn y lle cyntaf cyn cytuno ar amrywiad parhaol yn y contract. O ran recriwtio, roedd yr adolygiad wedi ystyried a oedd y fethodoleg yn parhau i fod yn gyfredol ac yn denu'r ymgeiswyr cywir, yn enwedig pobl iau.

Roedd yr Aelodau yn bryderus o glywed am achosion o absenoldeb hirdymor oherwydd salwch iechyd meddwl, ond yn falch o glywed am y mecanweithiau cymorth oedd yn eu lle. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl y ceisir cael hyrwyddwyr lles o bob rhan o'r sefydliad a'u rôl fyddai cyfeirio staff, yn ogystal â llywio gwaith yr Awdurdod yn y maes llesiant. Byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu, ac awgrymwyd y gallai swyddogion gysylltu â Thîm Iechyd Galwedigaethol Cyngor Sir Penfro oedd yn rhedeg rhaglen debyg.

Roedd yr Aelodau wedi mynegi pryder yn flaenorol ynghylch cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ac mewn ymateb roedd dulliau mwy rhagweithiol o fonitro yn eu lle, a'r staff yn cael eu cysylltu yn uniongyrchol. Dywedwyd bod hyfforddiant gorfodol yn rhan o'r broses o sefydlu staff newydd, gan gynnwys staff tymhorol, a bod rhai sesiynau grŵp wedi'u cynnal lle'r oedd hynny'n briodol. Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad pellach maes o law ac roeddent yn meddwl tybed a fyddai ffigwr canrannol yn well na'r niferoedd sydd mewn gwirionedd yn cydymffurfio/ ddim yn cydymffurfio.

Gan droi at y dangosfwrdd o ystadegau oedd ynghlwm wrth yr adroddiad, mynegodd un Aelod bryder am y nifer isel o swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a hysbysebwyd dros y flwyddyn flaenorol ac effaith hyn ar nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sefydliad yn gyffredinol. Dywedodd y swyddogion bod recriwtio yn gyffredinol yn heriol, ac yn arbennig felly lle'r oedd gofynion penodol. Dywedwyd bod swyddi yn cael eu hysbysebu fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol os oedd angen darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac nad oedd yn bosibl gwneud hynny gan y cyflenwad presennol o staff. Roedd y swyddi a recriwtiwyd yn ddiweddar wedi bod ar gyfer swyddi lle nad oedd angen darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu bod y ddarpariaeth eisoes ar gael i ganiatáu i hynny ddigwydd.

Nodwyd.

